

# Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 5<sup>ydd</sup> o Fai, 2016, yn y Neuadd Bentref am 7.30 yr hwyr.

## Yn Bresennol

- Cefyn Williams
- Ifan Williams
- Nan Jones
- John Evans
- Llion Jones
- Gwen Wynne
- Ann Owen
- Emrys Bodden
- Mr Barry Ellis, aelod o'r cyhoedd o Gynwyd

## Ymddiheuriadau

- Aelwyn Guest

Cyn ymdrin â materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd. Mae nifer yn y cylch yn cwyno, a chydymdeimlwyd a'r rhai sydd yn galaru.

## Digwyddiadau'r pentref

- Pethau'n dawel
- Mae'n debyg fod lladron yn dwyn yn yr ardal. Rhaid fod yn ofalus. Unrhyw peth sydd yn achosi pryder, mae angen cysylltu a'r Heddlu heb oedi.

## Cofnodion y Cyngor

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5 Ebrill 2016, a chafwyd yn gywir, gyda dim materion yn codi o'r cofnodion. Hefyd, derbyniwyd agendas Sir Ddinbych.

## Ymweliad

David Rhys Jones (Gwylio Cyflymder Cymunedol)  
Siaradodd yn drwyadl ac effeithiol am waith ei adran. Etholwyd Ifan Williams a Llion Jones fel cydraddau dros Cynwyd.

## **Materion Ariannol**

- Cyfraniad i Wyl Ddrama Corwen a'r Cylch: £50.00

## **Cynllunio**

- Tir cyfagos i Hafod Wen – codi adeilad masnachol i ddarparu gofal plant a llety preswyl ategol. Mae ein cyngor yn cefnogi'r cais yn gryf iawn, ac rydym am aadael i'r Cyngor Sir gwybod hyn.

## **Gwybodaeth ac UFA**

- Iaith y Cyngor yw Cymraeg yn arferol. Y clerch neu un unigolyn i gyfieithu i'r Saesneg os oes angen
- Cyflwr y ffyrdd yn enwdig Ffordd y Rhaeadr – Cefyn Williams yn siarad â'r Cyngor Sir.
- Gweld am gael Bin Gwyrdd i'r Fynwent Newydd.
- Syniad i symud y ciosc i ganol y pentref, a gosod diffibriliwr ynddo – rhaid ystyried yn fanwl.
- Cais Mr Barry Ellis - gweld os fod gwybodaeth gan MANWEB am perchennog y tir. Hefyd cysylltu gyda Un Llais Cynwyd.

**Cyfarfod Nesaf:** Dydd Mawrth, 7<sup>fed</sup> o Fehefin, 2016